Cenn@d

CHWEFROR 23 2022 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 52

# Galwad am weddi dros Wcráin wrth i'r anghydfod yno ddwysáu

Wrth i *Cenn@d* fynd i'r wasg roedd gwleidyddion ac arweinwyr y byd yn cynnal cyfarfodydd brys i drafod sefyllfa argyfyngus yr anghydfod ar y ffin rhwng yr Wcráin a Rwsia. Ochr yn ochr â hyn daeth cri gan sawl mudiad heddwch ac asiantaeth Gristnogol yn gofyn am bwyllo, am drafod synhwyrol ac oedi cyn unrhyw ymyrraeth filwrol. Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn crynhoi'r ymateb hwnnw.

Ers wythnosau bellach bu'r Wcráin yn y newyddion, wrth i densiynau godi rhwng Rwsia a'r wlad. Gwlad yn nwyrain Ewrop yw'r Wcráin, ac mae'n ffinio â Rwsia, Belarws, Gwlad Pwyl, Slofacia, Hwngari, Rwmania a Moldova. Mae gan y wlad boblogaeth o 44 miliwn o bobl, a hi yw'r wlad fwyaf yn Ewrop. Ers yr ymwahanu oddi wrth yr Undeb Sofietaidd yn 1991 mae'r Wcráin wedi closio at y gorllewin ac wedi gwneud cais ffurfiol i ymuno â'r Undeb Ewropeaidd. Serch hynny, mae trigolion ochr ddwyreiniol y wlad yn closio at Rwsia, a gwelwyd gwrthryfel yno ers 2014, gyda dros 14,000 o bobl wedi eu lladd. Erbyn hyn mae Rwsia wedi symud dros 150,000 o filwyr i'r ardal sy'n ffinio â'r wlad, ar gyfer yr hyn mae'r Arlywydd Vladimir Putin yn ei alw'n 'ymarferion milwrol'. Mae'r Arlywydd hefyd wedi cyhoeddi annibyniaeth i ddau ranbarth yn nwyrain y wlad, sef Donetsk a Luhansk.

## Trafodaethau gwleidyddol

Cynhaliwyd nifer o drafodaethau gwleidyddol dwys yn rhyngwladol dros yr wythnosau diwethaf er mwyn ceisio datrys y bygythiad milwrol. Gwnaed datganiadau cryf gan Boris Johnson, Joe Biden ac eraill, gyda rhybuddion am sancsiynau llym yn erbyn Rwsia petai symudiad milwrol yn digwydd. Bu NATO a sawl llu milwrol hefyd yn paratoi cynlluniau strategol petai angen ymateb i argyfwng rhyfel, yn ogystal â mudiadau dyngarol fel y Groes Goch.

Yn ystod yr wythnos a aeth heibio fe deithiodd Adam Price o Blaid Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, Mick Antoniw, i'r wlad, gan gyfeirio at y cysylltiadau hanesyddol rhwng Cymru a'r Wcráin, er enghraifft, y ffaith mai Cymry sefydlodd ddinas Donetsk yn y 19eg ganrif, a bod amryw o bobl o'r



Wcráin wedi ymgartrefu yn ardaloedd y pyllau glo yng Nghymru. Meddai Adam Price, 'Po fwyaf y caiff pobl yr Wcráin eu bygwth gan ymddygiad ymosodol ac imperialaeth Rwsiaidd, po fwyaf yw'r brys i sosialwyr, democratiaid a chyd-wladwyr gydsefyll ochr yn ochr â nhw – i amddiffyn eu hawl i hunan-benderfyniad cenedlaethol ac yn erbyn rhyfelgarwch Putin.'

## Cysylltiadau Bedyddiedig a Christnogol

Un arall a deithiodd i'r wlad yn ystod y dyddiau diwethaf hyn yw'r Parchedig Elijah Brown, Ysgrifennydd Cyffredinol Ffederasiwn Bedyddwyr y Byd. Mae dros 2,800 o eglwysi Bedyddiedig yn yr Wcráin, â chynulleidfa o dros 300,000 o bobl a dros 3,000 o weinidogion. Mae Elijah yn gofyn i'r teulu byd-eang sefyll mewn undod â Christnogion yr Wcráin, gan gofio amdanynt mewn gweddi. Mewn datganiad, meddai,

> Fel brodyr a chwiorydd o fewn y teulu Cristnogol byd-eang, rydyn ni i gyd yn cael ein galw i fod yn dangnefeddwyr ac yn bobl o weddi. Tystiwn i'r gwirionedd Beiblaidd: 'os yw un aelod yn dioddef, mae'r holl aelodau'n dioddef'. Wrth i densiynau barhau ar hyd y ffin rhwng Rwsia a'r Wcráin, mae'n hollbwysig fod Cristnogion o gwmpas y byd yn sefyll gyda'r rhai sy'n dioddef ac yn gweddïo'n daer am heddwch.

Rhannodd hefyd bwyntiau gweddi:

- Gweddïwch y byddwn fel Cristnogion yn dilyn ffordd Iesu ac yn ceisio cymod a heddwch.
- Gweddïwch dros fyd a diwylliant lle nad yw anghytundeb gwleidyddol yn arwain at gasineb neu drais a rhyfel.
- Gweddïwch dros deuluoedd, yn enwedig y teuluoedd hynny sydd ag aelodau ger y ffin a bob ochr iddi – y byddant yn cael gofal a diogelwch.

## Ceisio Cymod yw'r UNIG ffordd

Mudiad gweithgar sy'n ymgyrchu dros heddwch yw Cymdeithas y Cymod. Mae'n gofidio dros les a budd y bobl gyffredin yn y wlad, yn sgil ymosodiadau rhyfelgar. Mae pobl gyffredin yr Wcráin a Rwsia wedi eu dal yn y canol rhwng y ddwy garfan filwrol bob ochr i'r ffin. Y bobl gyffredin, mae'n debyg, fydd yn dioddef waethaf os daw hi'n rhyfel – fel ym mhob rhyfel.

Mae Cymdeithas y Cymod am sefyll gyda heddychwyr yr Wcráin a Rwsia, drwy fynnu mai cymod yw'r unig ateb i anghydfod.

Dyma sydd gan Fudiad Heddychwyr Wcráin – y bobl sydd yn ei chanol hi – i'w ddweud: 'Mae angen i ni atal y casgliad o filwyr, y casgliad o arfau ac offer milwrol yn yr Wcráin a'r cyffiniau. Mae Mudiad Heddwch Wcráin yn condemnio'r gwaith o baratoi'r Wcráin ar gyfer rhyfel â Rwsia. Rydym yn benderfynol o beidio â chefnogi unrhyw fath o ryfel ac ymdrechu i gael gwared ar bob achos rhyfel'.

Meddai Rhun Dafydd, Cadeirydd Cymdeithas y Cymod:

> Mae'r sefyllfa yn yr Wcráin yn amlwg yn un bryderus ond mae'r neges o gymod yn bwysig i'w rhannu mewn byd gwleidyddol sydd mor obsesiynol â thrais a phŵer. Mae'n rhaid cofio'r bobl sydd yng nghanol hyn i gyd; nid yw pobl Wcráin am weld rhyfel o unrhyw fath yn eu gwlad. Ein neges ni i arweinwyr y byd yw fod cariad wastad yn trechu atgasedd.

Heb os, bydd y dyddiau nesaf yn rhai allweddol. Gobeithiwn y bydd sgyrsiau deallus ac ystyrlon yn digwydd, ac y bydd modd datrys sefyllfa lawn tensiwn mewn ffordd heddychlon. Mewn dyddiau heriol felly, ymrown i weddi, gan geisio cymod a heddwch i'n byd.

Y Silff Lyfrau
Tudalen 4

Sul Newid Hinsawdd yn gadael gwaddol gwerthfawr
Tudalen 5

Ffydd a Diwylliant
Tudalen 7